

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru  
National  
Assembly for  
Wales



## HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 22 Ebrill 2015  
Tabled on 22 April 2015

Bil Cymwysterau Cymru  
Qualifications Wales Bill

**Simon Thomas**

**58**

Section 1, page 2, after line 19, insert—

‘() Part 7, section [section to be inserted by amendment 60], places a duty on Welsh Ministers to promote the Welsh qualification system and the aims of Qualifications Wales.’.

Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 22, mewnosoder—

‘() Mae Rhan 7, adran [adran i’w mewnosod gan welliant 60], yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo system gymwysterau Cymru a nodau Cymwysterau Cymru.’.

**Simon Thomas**

**59**

Section 1, page 2, after line 19, insert—

‘() Part 7, section [section to be inserted by amendment 61], places a duty on Welsh Ministers to report to the Assembly on whether or not Qualifications Wales will become an issuing authority for apprenticeships.’.

Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 22, mewnosoder—

‘() Mae Rhan 7, adran [adran i’w mewnosod gan welliant 61], yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd i’r Cynulliad ynghylch a fydd Cymwysterau Cymru yn dod yn awdurdod dyroddi ar gyfer prentisiaethau ai peidio.’.

**Simon Thomas**

**60**

To insert a new section –

*‘Duty of Welsh Ministers*

**[ ] Duty of Welsh Ministers to promote**

- (1) The Welsh Ministers must take all reasonable steps to promote the Welsh qualification system and the aims of Qualifications Wales.
- (2) The Welsh Ministers must promote the Welsh qualification system and the aims of Qualifications Wales particularly to the following groups –
  - (a) parents;
  - (b) employers;
  - (c) teachers;
  - (d) further education institutions;
  - (e) higher education institutions;
  - (f) training bodies;
  - (g) pupils; and
  - (h) students. ’.

I fewnosod adran newydd –

*‘Dyletswydd Gweinidogion Cymru*

**[ ] Dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i hyrwyddo system gymwysterau Cymru a nodau Cymwysterau Cymru.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru hyrwyddo system gymwysterau Cymru a nodau Cymwysterau Cymru yn benodol i’r grwpiau a ganlyn –
  - (a) rhieni;
  - (b) cyflogwyr;
  - (c) athrawon;
  - (d) sefydliadau addysg bellach;
  - (e) sefydliadau addysg uwch;
  - (f) cyrff hyfforddi;
  - (g) disgyblion; ac
  - (h) myfyrwyr. ’.

**Simon Thomas**

**61**

To insert a new section –

*‘Duty of Welsh Ministers*

**[ ] Duty of Welsh Ministers to report**

The Welsh Ministers must lay before the Assembly within two years of Royal Assent a report setting out whether or not Qualifications Wales will become an issuing authority for apprenticeships, and if so in what manner.’.

I fewnosod adran newydd –

*‘Dyletswydd Gweinidogion Cymru*

**[ ] Dyletswydd Gweinidogion Cymru i adrodd**

Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad, o fewn dwy flynedd i gael Cydsyniad Brenhinol, adroddiad sy’n nodi a fydd Cymwysterau Cymru yn dod yn awdurdod dyroddi ar gyfer prentisiaethau ai peidio, ac os felly, ym mha fodd.’.